COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 18 EBRILL 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

A Hussain RM James

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn a/ac JE Lewis

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Katie Brook | Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) |
| Katia Daw | Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

57. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Gary Thomas fuddiant ariannol yn eitem agenda 6. Nododd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd gan iddo lofnodi ei basbort fel cynrychiolydd ar ei gyfer.

58. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 13 Chwefror 2018 yn cael eu cymeradwyo yn gofnod gwir a chywir.

59. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD LLOGI PREIFAT

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu – Technegol adroddiad am gais gan Mr Samuel Griffiths i drwyddedu Vauxhall Insignia, rhif cofrestru BN15 JYP fel cerbyd llogi preifat i 4 person. Nid fe oedd perchennog cyntaf y cerbyd a gafodd ei gofrestru ar 28 Ebrill 2015. Daeth Mr Griffiths i'r cyfarfod heddiw i gefnogi ei gais a gohiriwyd cyfarfod yr Is-bwyllgor i archwilio'r cerbyd. Wrth archwilio'r cerbyd, nodon nhw mai 71.102 milltir mae'r cerbyd wedi'u teithio.

Dychwelodd yr Is-bwyllgor ac wedi ystyried y cais:

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais am drwydded ar gyfer y cerbyd â'r rhif cofrestru BN15 JYP.

Nododd yr Is-bwyllgor nad yw'r cerbyd yn berthnasol i baragraff 2.1 Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor y cais wedi'i wneud gan Mr Griffiths i drwyddedu Vauxhall Insignia, rhif cofrestru BN15 JYP fel cerbyd llogi preifat i 4 person gan ei fod yn bodloni paragraffau 2.2 a 2.2.5 o ganlyniad i gyflwr eithriadol y cerbyd.

60. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNI

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu – Technegol adroddiad am gais gan Mr Mohammed Miah i drwyddedu Toyota Active, rhif cofrestru MF18 GZH fel cerbyd llogi preifat i 4 person.

Daeth Mr Miah heddiw i gefnogi ei gais a gohiriwyd yr Is-bwyllgor y cyfarfod i archwilio'r cerbyd. Wrth archwilio'r cerbyd, nodon nhw mai 918.1 milltir mae'r cerbyd wedi'u teithio.

Gofynnodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu - Technegol pam oedd oedi o ran cymeradwyo'r cais i drwyddedu'r cais. Dywedodd Mr Miah fod oedi o ran y cais ond iddo gofrestru'r car pan iddo ei brynu.

Gohiriwyd yr Is-bwyllgor ei gyfarfod i ystyried y cais ymhellach ac wedi dychwelyd,

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais am drwydded ar gyfer y cerbyd â'r rhif cofrestru MF18 GZH.

Nododd yr Is-bwyllgor nad yw'r cais yn berthnasol i baragraff 2.1 Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor y cais wedi'i wneud gan Mr Miah i drwyddedu Toyota Active, rhif cofrestru MF18 GZH fel cerbyd llogi preifat i 4 person gan ei fod yn bodloni paragraffau 2.2 a 2.2.5 o ganlyniad i gyflwr eithriadol y cerbyd.

61. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNI

Gan y datganodd y Cynghorydd Gary Thomas fuddiant ynghynt yn y cyfarfod, dim ond dau Aelod oedd yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor a chan fod angen tri aelod i wneud penderfyniad, nid oedd cworwm ar gyfer yr eitem hon a chafodd y cais ei ohirio.

62. EITEMAU BRYS

Dim.

63. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitemau busnes hyn yn cael eu hystyried gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf .hon.

Yn dilyn y prawf o fuddiant y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol mewn preifat, gyda'r cyhoedd wedi'i wahardd o'r cyfarfod, gan y ystyriwyd, ym mhob amgylchedd sy'n ymwneud â'r eitemau, y byddai buddiant y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na fuddiant y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth, gan y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr wedi sôn amdanynt.

64. CYMERADWYO'R COFNODION WEDI'U HEITHRIO

65. CAIS I GYMERADWYO TRWYDDEDAU.

66. CAIS I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

67. GWRANDAWIAD DISGYBLAETHOL AR GYFER GYRRWR TACSI

Daeth y cyfarfod i ben am 11:27